

O bryd i'w gilydd mae'n arfer gan Gwmni Rogers Jones, sydd â'i bencadlys ym Mae Colwyn, i gynnal yr hyn a elwir ganddo *The Welsh Sales*, pan roddir ar oesiwn nifer helaeth, yn wir gymaint â 177 yn arwerthiant Medi 2005, o weithiau arlunwyr y mae iddynt gysylltiadau Cymreig.

Nid yn annisgwyl hwyrach, bydd enwau mwyaf yr arlunwyr, rheini yn rhai tra chyfarwydd — Kyffin Williams, Charles Tunnicliffe, William Selwyn, Ceri Richards, Wil a Wilf Roberts, Keith Bowen, Warren Williams, Joseph Herman, Donald Mc Intyre, Gwilym Prichard, Karel Lek a Harry Hughes-Williams, ynghyd â nifer o rai eraill.

Allwn i ddim mynd i'r un a gynhaliwyd fore Sadwrn, Medi 24, y llynedd. 'Roedd rhywbeth arall — na alla'i ar y funud gofio'n union beth, chwaith — y diwmod hwnnw, yn hawlio rheitiach sylw, ond bu rhywun tra meddylgar a charedig, o wybod am fy ngwendid, yn ddigon ystyrlid i wthio'r catalog drwy'r twll llythyrau.

Y llygad yn syrthio ar rif 27

Oedd yn wir, yr oedd yr arlwy arferol yn cael ei chynnal yn seigiau hynod flasus i demtio'r cryfaf sy'n ymddiddori yn y cyfryw bethau. Rhoddais bopeth o'r neilltu yn y fan a'r lle tra bwm wrthi'n ddeheuig am yr awr dda nesaf yn mynd â chrib mân drwy'r rhestr. Sylwedolwn, wrth reswm, y byddai prisiau'r mwyafrih ohonynt ymhell o'm cyrraedd, i, druan, er fy mod drachefn a thrachefn, yn mynnu dychwelyd at Rif 27 ar y rhestr.

Yr eitem yn cynnwys tri pheth

'Roedd yr eitem honno yn cynnwys tri pheth oedd i fynd gyda'i gilydd- dyfrilli gwreiddiol gan E. Meirion Roberts, sef cartŵn o D. Tecwyn Lloyd, print gan yr un arlunydd, eto yn portreadu Tecwyn Lloyd yn ei amrywiol agweddau ynghyd â *Darlun o'r Arlunydd*, cyfrol liwgar a olygwyd gan Robert Owen a John Gruffydd Jones a gyhoeddwyd

gan Wasg Gwynedd yn 1995 ac sy'n bwrw golwg ar waith a chyfaniad nodedig y diweddar arlunydd dawnus hwnnw E. Meirion Roberts.

Allwn i ddim maddau, a dyma godi'r ffôn i holi'r arwerthwr beth tybed oedd yr amcan bris arnynt. Ac yn wir fe'm siomwyd ar yr ochr orau — rywbeth hyd at bedwar ugain punt dyfalwyd, swm a oedd i'm tŷ i yn un rhesymol isel. A dyma adael cynnig yn syth amdanant, eithr gan dreulio'r deuddydd nesaf ar bigau'r drain er na theimlwn fod seiliau rhy gadarn i'm gobeithion chwaith. Digon posib y byddai rhywun cefnog yn cynnig dwbwl drebal fy nghynnig pitw i, bernais, er na allwn i ddim credu 'nghlustiau dros y ffôn trannoeth o ddeall fod y morthwyl wedi'r cyfan wedi disgyn o'm plaid a hynny am swm nad oedd ond fyfryn yn uwch na'r amcan bris.

Cynnig am eitem heb ei weld

Onid tybed a oeddwn i wedi prynu cath mewn cwd? Diau mai rhywbeth ffôl a thra anghyfrifol oedd cynnig am unrhyw eitem, heb yn gyntaf wneud ymchwiliad manwl ohoni i ganfod, i ddechrau, beth oedd ei chyflwr. Ond unwaith eto roedd rhyw ragluniaeth o'm plaid, canys wrth fynd i'w casglu canfyddwyd fod y tri pheth mewn cyflwr ardderchog, yn arbennig felly y cartwn gwreiddiol. Ynddo fe welir Tecwyn Lloyd mewn pâr o welingtons gwyrddion yn eistedd ar dwmpath o gerrig a gwn dau faril o dan ei gesail, tra bod cwingod, ac o bosibl ysgyfarnogod, yn crechwenw wrth redeg yn bowld o'i gwmpas a chydha ffasantod a hwyaid gwylltion, yr un mor ddigywilydd, yn gwibio'n herfeiddiol uwch ei ben, am ei fod ef wedi llwyr anghofio am eu bodolaeth wrth ymgolli mewn cyfrol ar Saunders Lewis!

Cyflwynedig i D. Tecwyn Lloyd

Ar gefn y llun, mewn pensil, wel'n ysgrifenedig yn llaw ei wraig Gwyneth — **Cyflwynwyd i D. T. Ll mewn cyfarfod wedi**



Portread o Tecwyn Lloyd yn ei amrywiol agweddau.

ei drefnu gan Gylch Llenyddol Bro Glyndŵr ar 20 Chwefror 1990 yn hen Ysgol Tŷ Dan Domen, (Y Cyfnod heddiw). Cyfarfod oedd hwn i'w longyfarch ar dderbyn anrhydedd gan Brifysgol Cymru — gradd D. Lit.


Hwyrach, gyda llaw, y dylid ychwanegu fod lluniau o'r achlysur hwnnw yn Neuadd Y Cyfnod, Y Bala wedi eu cynnwys yn y gyfrol *Bro a Bywyd D. Tecwyn Lloyd 1914-1992* a olygwyd gan Elwyn Edwards ac a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau Barddas 1997.

Yr eiddo yn mynd ar chwâl

Er bod rhyw elfen o dristwch mawr yn y stori, rywsut. Yn ôl pob tebyg, ar farwolaeth disymwyth gwedd D. Tecwyn Lloyd ym mis Mawrth 2005, ac fel sy'n digwydd yn ein hanes ni oll, yn hwy neu'n hwyrach, cawsai cynnwys y cartref ei chwalu. A dyna, mae'n fwy na thebyg, yn dilyn yr hyn a elwir, mewn cylchoedd ffasiynol, fel 'house clearance' sut y gwelodd eitemau Rhif 27 eu ffordd i Arwerthiant Rogers Jones ym Mae Colwyn rai misoedd yn ddiweddarach.

Onid synnu yr ydw i, braidd, na fu ymryson mwy ffyrnig amdanant ymhlith Cymry llengar, neu'n wir rai o aelodau Cymdeithas Bob Owen y diwmod hwnnw. Ple'r oeddych, tybed? Ac oni ddylai rhyw ganolfan treftadaeth rywle yn Sir Feirionnydd fod wedi mynd amdanant, neu hwyrach y Llyfrgell Genedlaethol? Wedi'r cwbl, onid oedd Tecwyn Lloyd, ym mam y rhai a ddylai wybod, ymhlith sgrifenydd Cymraeg gorau'r ganrif ddiwethaf? Petai o ac E. Meirion Roberts yn Saeson fe fyddai'r hanes yn bur wahanol, does dim dwywaith am hynny.

Nid 'mod i'n cwyno gormod chwaith, canys rwy'n dal i daeru i mi gael bargaen! Mae'r cartŵn gwreiddiol hwnnw yn grair a fydd yn sier o gael cartref da yn Eifionydd am rai o'r blynyddoedd nesaf, yn arbennig o gofio fod iddo 'such excellent provenance', chwedl pobol grand y trêd yr ochr arall i'r clawdd 'na!



Clawr y gyfrol ar waith y darlunydd dawnus.